Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Wasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd

Cyngor Dinas Casnewydd

Tachwedd 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, mae'n rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ailddefnyddio.


## Os byddwch angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'r cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar yr archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigurau allweddol | 5 |
| Ein canfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 9 |
| Atodiad | 10 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 11 |
| Amdanom ni | 12 |

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn a ystyriwyd gennym

1 Fe wnaethom ystyried a oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu ei Wasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd. Nid oedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar wneud argymhellion ar feysydd neu ganlyniadau penodol o fewn y gwasanaeth, ond yn hytrach edrych ar y trefniadau cyffredinol sydd gan y gwasanaeth ar waith. Roedd hyn yn cynnwys cynllunio strategol, rheoli perfformiad, defnydd o adnoddau a chydweithredu.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae gwasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau pwysig gan gynnwys ansawdd aer, diogelwch bwyd a difa plâu. Mae bod â threfniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian yn bwysig i sicrhau bod y Cyngor yn darparu'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn defnyddio ei adnoddau'n dda.

## Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod

3 Mae gan y Cyngor drefniadau eglur i reoli'r gwasanaeth, ond gellid cryfhau'r rhain trwy ddiffinio canlyniadau ac amcanion y gwasanaeth yn well.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

4 Rydym yn gwneud tri argymhelliad â'r nod o wella dull y Cyngor o bennu a chyflawni canlyniadau ac amcanion y gwasanaeth.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

- Mae Gwasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor wedi'i gyfansoddi o bedair adran. Newid Hinsawdd, Diogelu'r Cyhoedd, yr Amgylchedd a Hamdden, a Gwastraff a Glanhau yw'r rhain.

- Yn 2009-10, £2.568 miliwn oedd gwariant net y Cyngor ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd. Yn 2023-24, £1.182 miliwn oedd gwariant net y Cyngor[1] (heb ei addasu ar gyfer chwyddiant).

- Mae cyfran cyfanswm y gwariant ar y gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei wario ar iechyd yr amgylchedd wedi gostwng o 0.8% yn 2009-10 i 0.3% yn 2023-24.

- Yn 2023-24, £7.22 fesul preswylydd oedd gwariant refeniw net y Cyngor ar iechyd yr amgylchedd o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o £16.89 y preswylydd.

[1] Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Crynodeb o wariant alldro refeniw, yn ôl gwasanaeth (£ mil).

# Ein canfyddiadau

## Mae gan y Cyngor drefniadau eglur i reoli'r gwasanaeth, ond gellid cryfhau'r rhain trwy ddiffinio canlyniadau ac amcanion y gwasanaeth yn well

5 Mae gan y Cyngor drefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad ei wasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dangosyddion perfformiad, diweddariadau i'r cynllun gwasanaeth, adroddiadau i reoleiddwyr allanol, diweddariadau rheolaidd i uwch reolwyr ac aelodau cabinet. Mae'r Cyngor yn manteisio ar wybodaeth ariannol, gweithlu a risg i hysbysu adroddiadau monitro. Mae bod â threfniadau eglur ar gyfer adrodd ar berfformiad y gwasanaeth yn cefnogi tryloywder.

6 Mae gan y Cyngor drefniadau hefyd ar gyfer nodi, uwchgyfeirio a rheoli risgiau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio meddalwedd rheoli risg, diweddariadau i'r cynllun gwasanaeth a diweddariadau tri misol i'r gofrestr risg gorfforaethol i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor. Mae'r trefniadau hyn wedi cynorthwyo'r gwasanaeth i leihau effaith bosibl risgiau sylweddol, fel risgiau sy'n gysylltiedig â chlefyd (Chalara) coed ynn.

7 Mae gan y Cyngor gynllun gwasanaeth blynyddol yn nodi pum amcan ar gyfer y gwasanaeth. Dyma'r amcanion:

- Seilwaith gwyrdd a glas ar gyfer gwydnwch cymunedol ac amgylcheddol
- Gwelliant parhaus i berfformiad ailgylchu a symud tuag at economi gylchol
- Cyflawni ymyriadau gyda'r diben o wella iechyd y cyhoedd a llesiant cymunedol
- Cyflawni ymyriadau gyda'r diben o gynorthwyo busnesau, mynd i'r afael â throsedd a masnachu amheus, a diogelu unigolion agored i niwed
- Darparu Cynllun Newid Hinsawdd 2022-27

8 Mae'r cynllun gwasanaeth yn cynnwys canlyniad, camau byrdymor a chysylltiadau i gynllun corfforedig y Cyngor a chynlluniau strategol allweddol eraill ar gyfer pob amcan. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau a'r amcanion yn benodol, yn fesuradwy, nac yn amserol. Heb ganlyniadau wedi'u diffinio'n eglur ar gyfer y gwasanaeth, mae'n anodd i'r Cyngor:

- ddeall yr effaith y mae'n disgwyl ei chael ar adeg cynllunio;
- deall y canlyniadau y mae'n eu sicrhau;
- deall a yw'r gwasanaeth yn diwallu anghenion cymunedol;
- mesur a monitro'r dangosyddion cywir;
- nodi pan fo nodau wedi cael eu cyflawni;
- cyfathrebu cynnydd yn effeithiol i aelodau a'r cyhoedd; a
- nodi pa un a yw gwerth am arian yn cael ei sicrhau.

9 Mae diffinio canlyniadau ac amcanion eglur yn elfen bwysig o gynllunio strategol. Mae nodi'n eglur yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ceisio ei gyflawni yn galluogi amrywiaeth o opsiynau darparu i gael eu hystyried ac i effaith gael ei mesur yn effeithiol.

10 Gall mynd ar drywydd atebion digidol helpu i gynyddu effeithlonrwydd a gwella perfformiad y gwasanaeth. Mae'r Cyngor wedi archwilio a gweithredu atebion digidol ar draws amrywiaeth o dimau o fewn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys caffael meddalwedd newydd i gynorthwyo i reoli mynwentydd ac optimeiddio llwybrau casglu gwastraff.

11 Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion o'r gwasanaeth a'r adran Adnoddau Dynol wedi galluogi dull rhagweithiol o fynd i'r afael â heriau o ran recriwtio, cadw a salwch. Er enghraifft, mae prosesau recriwtio wedi cael eu symleiddio i leihau rhwystrau i ymgeiswyr. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn cynorthwyo'r gwasanaeth i fynd i'r afael â phwysau ar y gweithlu yn rhagweithiol.

12 Mae'r Cyngor yn cydweithredu ag amrywiaeth o bartneriaid i gyflawni gweithgareddau. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn rhan o Bartneriaeth Natur Leol Casnewydd ac yn cydweithredu â Chymdeithas Dai Cartrefi Dinas Casnewydd i atal trosedd amgylcheddol fel taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae'r Cyngor yn rhoi trefniadau llywodraethu ar waith i fonitro perfformiad cytundebau partneriaeth.

13 Ceir proses eglur ar gyfer monitro a herio cyllideb y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys rhagolygon misol, cyfarfodydd rheolaidd â'r adran gyllid ac adroddiadau tri misol i'r Cabinet. Mae swyddogion hefyd yn gwneud cyflwyniadau rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol yn cymharu costau a mesurau perfformiad y gwasanaeth gyda chynghorau eraill. Mae'r trefniadau hyn yn cynorthwyo'r Cyngor i gynllunio a rheoli'r gwasanaeth.

14 Mae'r gwasanaeth yn wynebu pwysau cyllidebol ac mae'r data sydd wedi'u cynnwys yn yr adran Ffeithiau a Ffigurau Allweddol yn dangos bod gwariant y Cyngor ar iechyd yr amgylchedd wedi lleihau dros amser. Mae'r Cyngor wedi datblygu canlyniadau ac amcanion sy'n llai penodol i hwyluso'r ansicrwydd yng nghyllidebau'r dyfodol.

15 Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes ganddo ganlyniadau ac amcanion penodol yn golygu na all y Cyngor ddangos yn eglur bod gwerth am arian wedi cael ei sicrhau. Er enghraifft, nid yw bodloni amcan i 'gyflawni ymyriadau' yn ei gwneud yn eglur a yw'r arian a wariwyd wedi darparu gwasanaeth effeithiol neu welliant i'r gymuned a'r amgylchedd yng Nghasnewydd. Mae pennu canlyniadau ac amcanion eglur yn galluogi'r Cyngor i gynllunio'r gyllideb, y staff a'r adnoddau eraill sydd eu hangen i'w cyflawni. Mae hefyd yn hwyluso dealltwriaeth fwy eglur o oblygiadau o ran adnoddau a gwerth am arian pe bai angen newid nodau'r gwasanaeth.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Cyngor sicrhau bod y canlyniadau a'r amcanion ar gyfer gwasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn b**enodol,** yn **uchelgeisiol** ac yn **synhwyrol** (CAMPUS**).**

**A2** Dylai'r Cyngor ddatblygu dangosyddion priodol i fonitro cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau a'r amcanion ar gyfer gwasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd.

**A3** Dylai'r Cyngor nodi'n eglur sut y bydd y canlyniadau a'r amcanion ar gyfer gwasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd yn cael eu hasesu i ddangos bod gwerth am arian wedi cael ei sicrhau.

# Atodiad

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom ystyried a oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu ei Wasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd. Nid oedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar wneud argymhellion ar feysydd neu ganlyniadau penodol o fewn y gwasanaeth, ond yn hytrach edrych ar y trefniadau cyffredinol sydd gan y gwasanaeth ar waith. Roedd hyn yn cynnwys cynllunio strategol, rheoli perfformiad, defnydd o adnoddau a chydweithredu.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

Ceisiodd yr archwiliad ateb y cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu ei wasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i gynllunio ei wasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd yn strategol?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i reoli'r risgiau o ran darparu ei wasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd?
- A yw'r Cyngor yn ceisio gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarparu ei wasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i gynllunio a rheoli adnoddau ei wasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd?

Fe wnaethom ddefnyddio ein gwybodaeth archwilio gyfunol i ddatblygu'r meini prawf archwilio sy'n ategu'r cwestiynau archwilio.

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu dogfennau yn ymwneud â'r gwasanaeth a chyfweld swyddogion allweddol ac aelodau etholedig sy'n gyfrifol am y gwasanaeth.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant well.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gynorthwyo, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.